**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 12fed Mawrth 2026 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Gary Evans, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Iwan Thomas ac Alwen Thomas.
Cynghorydd Sir Marc Davies
Clerc: Denfer Morgan

**328 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Michelle Davies a Tina Jones am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**329 Cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 12fed Chwefror 2026**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 12fed Chwefror 2026.

**330 Materion Cylidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Neuadd Bentref Cilcennin (Cyfarfodydd 2024-26) - £240

*Cyflog y Clerc (Ion-Chwef-Mawrth):*
Denfer Morgan - £387.94
CThEF (TWE) - £96.98
Costau gweinyddol y Clerc - £188.17

**331 Materion Cynllunio**

**PENDERFYNWYD** holi Gwasanaeth Gorfodaeth y Cyngor Sir am ddiweddariad ar y datblygiad anawdurdodig yn Preswylfa, Ciliau Aeron.

**332 Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

**PENDERFYNWYD** gofyn am ddiweddariad ysgrifenedig brys gan Awdurdodau'r Eglwys ar y sefyllfa presennol parthed eu harchwiliadau am dystiolaeth o'u perchnogaeth o'r tir.

**333 Cais am Gymorth Ariannol – Aberaeron Men's Shed**

Rhoddwyd ystyriaeth pellach i gais Aberaeron Men's Shed a **PHENDERFYNWYD** gohirio'r drafodaeth a gofyn am gyfrifon mwy diweddar er mwyn hwyluso'r ystyriaeth o'r cais.

**334 Unrhyw Fater Arall**

Cytunwyd dwyn sylw'r Cyngor Sir at y canlynol:

- Ymchwilio i statws carafan ar eiddo y soniwyd amdano yn y cyfarfod yn Heol Llyswen
- Coeden yng Nghiliau Aeron yn gorhongian dros ran o’r A482
- Arwydd ‘Ildiwch’ ger Tŷ Mawr wedi dod yn rhydd ac yn gorwedd ar y llawr oddi tano
- Yr angen i glirio’r ffosydd ar yr allt yn arwain o’r Bont Newydd

Daeth y cyfarfod i ben am 8:15pm